WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

### Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Awst 2010



**Cyf: 412A2010**
Llun trwy garedigrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
Arweiniwyd Tîm Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan Huw Lloyd Jones (Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant) a John Roberts (Cydgysylltydd Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Alan Morris (Partner).

# Mae sawl agwedd ar drefniadau corfforaethol bellach yn cefnogi gwelliant ond mae'r ansicrwydd presennol ar lefel yr uwch reolwyr yn risg bosibl i allu'r Cyngor i ateb heriau'r dyfodol


**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
**Ffôn: 029 2032 0500**
**Ffacs: 029 2032 0600**
**Ffôn Testun: 029 2032 0660**
**E-bost: info@wao.gov.uk**
**Gwefan: www.wao.gov.uk**



Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.



# Cynnwys


Crynodeb 4

Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser 6

Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w drefniadau corfforaethol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond mae'r ansicrwydd presennol ar lefel yr uwch reolwyr yn peri risg bosibl i gynnydd pellach 6

Ar ôl cyfnod o gynnydd cyfyngedig, gwnaeth y Cyngor welliannau sylweddol i'w drefniadau corfforaethol rhwng 2005 a 2009 6

Mae trefniadau'r Cyngor bellach yn gadarn ar y cyfan 6

Mae'r Cyngor wedi ymdopi'n dda â llai o uwch reolwyr ond mae'r ansicrwydd presennol yn peri rhywfaint o risg i'w ragolygon o sicrhau gwelliant pellach 7

Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella 8

Mae llawer o drefniadau corfforaethol y Cyngor yn cyfrannu'n gadarnhaol at ei helpu i wella ac ateb heriau'r dyfodol 8

Mae prosesau busnes a llywodraethu datblygedig wedi cynnal y Cyngor yn ystod cyfnod anodd o ran ei arweinyddiaeth 8

Mae'r Cyngor wedi dechrau mireinio ei flaenoriaethau i lywio ei ddefnydd o staff ac adnoddau yn yr hinsawdd ariannol gynyddol heriol sydd ar droed ac mae'n gweithio mewn partneriaeth mewn modd pragmatig 9

# Crynodeb

1 Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, sef cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni:

- Asesiad Corfforaethol – sy'n asesu trefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – sy'n asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo.

3 Y nod yw gallu cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob awdurdod mewn dull safonol. Gyda'i gilydd, bydd y ddau asesiad hyn yn ffurfio sail adroddiad blynyddol i ddinasyddion, sef yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith yr Archwilydd Penodedig, a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull newydd hwn, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol, a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad cynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn ddiweddariad ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol.

5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol, *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus*. Nodwyd effaith bosibl gostyngiadau mewn gwariant ar lywodraeth leol hefyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mehefin 2010, dywedodd CLILC nad oedd modd dianc rhag y ffaith y byddai angen i bob rhan o'r sector cyhoeddus archwilio ei gwariant cyhoeddus a'r gwasanaethau a ddarperir - ni ellir datrys y diffyg drwy effeithlonrwydd yn unig. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a sut y cânt eu darparu, gan ystyried dewisiadau ar gyfer cynyddu lefelau caffael yn hytrach na darparu gwasanaethau a chydweithio. Paratowyd yr asesiad corfforaethol yn y cyd-destun hwn

6 Dim ond canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol y mae'r adroddiad hwn yn eu nodi a'i ddiben yw ateb y cwestiwn:

‘A yw trefniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?’

7 Gan mai ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn, mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod i roi diweddariad yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol, i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.



8 Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw bod sawl agwedd ar drefniadau corfforaethol bellach yn cefnogi gwelliant ond mae'r ansicrwydd presennol ar lefel yr uwch reolwyr yn risg bosibl i allu'r Cyngor i ateb heriau'r dyfodol.

9 Seiliwyd ein casgliad ar ein hasesiad o gynnydd y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i gefnogi gwelliant. Ceir esboniad manwl o'r casgliadau hyn yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad, yn y drefn honno. Nodwyd y canlynol:

- bod y Cyngor wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w drefniadau corfforaethol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond bod yr ansicrwydd presennol ar lefel yr uwch reolwyr yn peri risg bosibl i gynnydd pellach; a
- bod llawer o drefniadau corfforaethol y Cyngor yn cyfrannu'n gadarnhaol at ei helpu i wella ac ateb heriau'r dyfodol.

## Arolygiad arbennig

10 Ar sail yr Asesiad Corfforaethol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal arolygiad arbennig o'r Cyngor o dan adran 21 o'r Mesur.

## Argymhellion

11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella ar gyfer y Cyngor o dan adran 19 o'r Mesur nac wedi argymell y dylai Gweinidogion Cymru gynorthwyo'r Cyngor drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur.

## Meysydd ar gyfer gwella

12 Nododd yr asesiad y meysydd canlynol lle y cynigiwn y dylai'r Cyngor ystyried cymryd camau gweithredu.

| Arddangosyn 1: Meysydd ar gyfer gwella |
|---|
| C1 Dylai'r Cyngor, yn ei waith cynllunio ei hun ac o fewn partneriaethau, ddatblygu'r defnydd o ganlyniadau a mesurau ansoddol a meinitiol cysylltiedig wrth ddiffinio amcanion a blaenoriaethau. |
| C2 Dylai'r Cyngor, lle bynnag y bo'n bosibl, ddefnyddio gwybodaeth gymharol i raddau mwy helaeth wrth werthuso ei gynnydd o ran cyflawni ei flaenoriaethau. |
| C3 Dylai'r Cyngor barhau â'i raglen o nodi a gweithredu arbedion effeithlonrwydd a lleihau costau fel rhan o'i waith Cynllunio Ariannol Tymor Canolig, a hynny ar fyrder ac fel blaenoriaeth. |

# Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

## Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w drefniadau corfforaethol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond mae'r ansicrwydd presennol ar lefel yr uwch reolwyr yn peri risg bosibl i gynnydd pellach

13 Mae'r Cyngor wedi cynnal y gwelliannau a wnaed yn ystod ei Raglen Gwella Asesu Corfforaethol (CAIP) fewnol ac mae gan y rhan fwyaf o'i drefniadau corfforaethol sylfeini cadarn.

14 Mae'r Cyngor wedi profi cyfnod o anhrefn o ran ei uwch reolwyr yn ystod y misoedd diwethaf a cheir ansicrwydd o hyd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi rheoli ei faterion yn dda yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud dros amser a'i gadernid o dan amgylchiadau heriol.

### Ar ôl cyfnod o gynnydd cyfyngedig, gwnaeth y Cyngor welliannau sylweddol i'w drefniadau corfforaethol rhwng 2005 a 2009

15 Cyn 2004, nid oedd gan y Cyngor hunaniaeth gorfforaethol unedig. Er bod llawer o wasanaethau yn dda, roeddent yn tueddu i weithio ar wahân i'w gilydd. Yn 2004, argymhellodd yr Archwilydd Penodedig y dylid cynnal arolygiad llywodraethu corfforaethol oherwydd diffyg cynnydd wrth weithredu ar argymhellion blaenorol.

16 Mewn ymateb, sefydlodd y Cyngor adolygiad cymheiriaid a arweiniodd at CAIP eang ei chwmpas. Rhoddwyd y CAIP ar waith yn effeithiol iawn a chyflwynwyd nifer o welliannau sydd wedi cael eu cynnal. Yn arbennig, roedd y gwelliannau'n cynnwys:

- cyflwyno Byrddau Gwella, sy'n cynnwys aelodau a swyddogion etholedig, i oruchwylio rhaglenni newid mawr;
- trefniadau rheoli prosiect gwell;
- adolygiadau ddwywaith y flwyddyn o wasanaethau a wnaeth wella'r dull o reoli perfformiad a helpu i nodi risgiau;
- cyfathrebu gwell rhwng uwch reolwyr a rheolwyr canol, a datblygu dull o weithredu ar sail 'Tîm Conwy'; a
- threfniadau craffu gwell, gan arwain at ddealltwriaeth well ar ran aelodau etholedig o feysydd allweddol o bolisi a busnes y Cyngor.

### Mae trefniadau'r Cyngor bellach yn gadarn ar y cyfan

17 Ar 28 Medi 2009, rhoddodd yr Archwilydd Penodedig farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Cyngor, gan gadarnhau iddynt gael eu paratoi yn unol â gofynion statudol a'u bod yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol y Cyngor.



18 Ym mis Rhagfyr 2009, cyhoeddodd y Rheolwr Cydberthynas a'r Archwilydd Penodedig Lythyr Blynyddol ar ddatganiadau ariannol, trefniadau corfforaethol a pherfformiad y Cyngor. Yn y Llythyr, nododd y Rheolwr Cydberthynas, mewn perthynas â threfniadau corfforaethol y Cyngor, fod 'y cynnydd a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi parhau ond y bydd angen datblygu arno i ateb heriau yn y dyfodol'.

19 Wrth gynnal yr Asesiad Corfforaethol hwn, canfuwyd bod prosesau arwain a llywodraethu'r Cyngor yn ogystal â'i brosesau busnes yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol tuag at welliant. Mae nodweddion da hefyd o ran ei drefniadau gweithio mewn partneriaeth, polisi a strategaeth, defnydd o adnoddau a rheoli pobl. Fodd bynnag, er bod y Cyngor wedi diffinio cyfres gydlynol o flaenoriaethau ac wedi rhoi cyhoeddusrwydd iddi, nid yw canlyniadau bwriadedig y blaenoriaethau hyn yn ddigon clir eto i ategu'r gwaith o gynllunio staff ac adnoddau.

## Mae'r Cyngor wedi ymdopi'n dda â llai o uwch reolwyr ond mae'r ansicrwydd presennol yn peri rhywfaint o risg i'w ragolygon o sicrhau gwelliant pellach

20 Dechreuodd y Prif Weithredwr ei swydd ym mis Chwefror 2009 yn dilyn ymddeoliad ei ragflaenydd ym mis Gorffennaf 2008. Ni chytunodd y Cyngor na'r Prif Weithredwr ar amcanion penodol pan ddechreuodd yn ei swydd, ond mae proses ar waith i gytuno ar amcanion ar gyfer y dyfodol ac i egluro disgwyliadau. Ers mis Mawrth 2010, mae'r Cyngor wedi rhyddhau'r Prif Weithredwr o'i ddyletswyddau dros dro, oherwydd honiadau nad oeddent yn gysylltiedig â'i waith. Yn ogystal â hyn, gadawodd un o ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cyngor, a oedd wedi arwain y gwaith o weithredu'r CAIP yn flaenorol, i ddechrau swydd arall ym mis Ionawr 2010.

21 Yn dilyn atal y Prif Weithredwr dros dro, aeth y Cyngor ati'n gyflym i benodi uwch dîm rheoli dros dro, gan adfer y strwythur a oedd ar waith cyn mis Ionawr 2010, gyda Phrif Weithredwr Dros Dro a dau Gyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro. Dyrannwyd cyfrifoldebau'r deiliaid swyddi dros dro yn glir ac mae aelodau eraill o staff wedi cael eu dyrchafu dros dro i gwmpasu agweddau ar y rolau a adawyd gan yr uwch dîm rheoli dros dro.

22 Er i ni golli dau uwch reolwr yn ystod 2010, nid ydym wedi nodi unrhyw effaith fawr ar gynnydd busnes y Cyngor. Mae staff a chynghorwyr wedi cefnogi'r trefniadau dros dro yn dda, gan adlewyrchu'n rhannol effaith barhaus y gwelliannau cynharach a wnaed drwy'r CAIP a'r ethos 'Tîm Conwy'. Er hynny, mae'r ansicrwydd presennol ar frig y sefydliad yn peri elfen o risg i ragolygon y Cyngor o sicrhau gwelliant pellach yn yr hinsawdd ariannol heriol sydd ar droed.

# Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

## Mae llawer o drefniadau corfforaethol y Cyngor yn cyfrannu'n gadarnhaol at ei helpu i wella ac ateb heriau'r dyfodol

### Mae prosesau busnes a llywodraethu datblygedig wedi cynnal y Cyngor yn ystod cyfnod anodd o ran ei arweinyddiaeth

23 Er gwaethaf cyd-destun gwleidyddol a allai fod yn fregus, lle mae'r grŵp mwyaf yn gwrthwynebu, mae Arweinydd y Cyngor wedi sefydlu a chynnal Cabinet sefydlog a phrofiadol sy'n cynrychioli clymblaid o bedwar grŵp.

24 Mae'r sefydlogrwydd hwn yn adlewyrchu trefniadau llywodraethu gwell y Cyngor, y mae'r holl gynghorwyr yn gysylltiedig â hwy mewn ffyrdd amrywiol wrth weithredu ar flaenoriaethau'r Cyngor. Mae swyddogaeth graffu'r Cyngor wedi gwella, er enghraifft, gyda rhaglenni gwaith pwyllgorau yn cael eu halinio'n glir â rhaglen y Cabinet, ac eitemau'r agenda yn cael eu cysylltu'n benodol â blaenoriaethau'r Cyngor. Mae cryn dipyn o waith pwyllgorau craffu yn cynnwys ystyried materion cyn iddynt gyrraedd y Cabinet, ac mae'r broses hon yn helpu i sicrhau consensws gwleidyddol a sicrhau bod penderfyniadau dilynol y Cabinet yn meddu ar gefnogaeth eang.

25 Mae Byrddau Gwella yn ffordd arall i gynghorwyr gymryd rhan yn y gwaith o sicrhau cynnydd mentrau mawr, gan weithio ochr yn ochr â swyddogion. Mae Byrddau Gwella hefyd yn elfen allweddol o lywodraethu rhaglenni; er bod ganddynt y potensial i ddyblygu rhai o'r swyddogaethau craffu, mae'r Cyngor wedi ystyried y mater hwn yn ddiweddar ac wedi lleihau nifer y Byrddau Gwella er mwyn lliniaru'r risg hon.

26 Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella'r modd y mae'n rheoli ac yn llywodraethu prosiectau unigol sy'n cefnogi ei flaenoriaethau. Mae defnyddio 'oedi ac adolygu', lle y caiff gwerthusiadau ffurfiol sy'n cynnwys pob rhanddeiliad eu dal ar bwyntiau allweddol yn y broses o gyflawni rhai prosiectau, yn arfer da, gan alluogi'r Cyngor i fyfyrio ar y gwersi a ddysgwyd er mwyn llywio prosiectau yn y dyfodol.

27 Mae polisi rheoli risg y Cyngor yn gadarn ac mae gan uwch reolwyr ddealltwriaeth dda o'r broses o reoli risg. Mae'r Cyngor wedi rhoi rhaglenni hyfforddiant ar waith i staff ac i gadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau fel eu bod yn gwella eu gallu i gymhwyso'r fframwaith rheoli risg a'i ddehongli. Mae'r hunanasesiad o berfformiad gwasanaeth a gynhelir ddwywaith y flwyddyn yn bwydo i'r gofrestr risg yn effeithiol, gan alluogi risgiau lefel gwasanaeth pwysicach i gael sylw priodol ar lefel gorfforaethol.



28 Caiff pwyllgorau craffu a'r Cabinet adroddiadau ar berfformiad corfforaethol ddwywaith y flwyddyn. Roedd yr aelodau y gwnaethom siarad â hwy yn hyderus bod yr adroddiadau, ynghyd â gwybodaeth arall a oedd ar gael iddynt, yn rhoi sail ddigonol iddynt fesur perfformiad y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau perfformiad yn cynnwys digon o wybodaeth am dueddiadau ac am berfformiad cynghorau eraill i alluogi gwerthusiad cynhwysfawr o berfformiad.

29 Mae'r defnydd sy'n datblygu o feddalwedd rheoli perfformiad Ffynnon yn cynnig y posibilrwydd o gynyddu'r data cymharol ystyrlon sydd ar gael. Mae'r Cyngor eisoes wedi diffinio trothwyon derbyniol ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol, a chaiff rheolwyr gwasanaethau eu dwyn i gyfrif os na fydd perfformiad yn cyrraedd y trothwy. Fodd bynnag, yn fwy cyffredinol, prin y caiff dangosyddion perfformiad eu defnyddio i lywio'r broses o reoli gwasanaethau.

## Mae'r Cyngor wedi dechrau mireinio ei flaenoriaethau i lywio ei ddefnydd o staff ac adnoddau yn yr hinsawdd ariannol gynyddol heriol sydd ar droed ac mae'n gweithio mewn partneriaeth mewn modd pragmatig

30 Mae'r Cyngor bellach yn y drydedd flwyddyn o weithredu ei Gynllun Corfforaethol pedair blynedd. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i adolygu'r Strategaeth Gymunedol er mwyn llywio'r Cynllun Corfforaethol nesaf.

31 Mae'r cynllun presennol yn adlewyrchu'r Strategaeth Gymunedol sy'n bodoli eisoes yn ogystal â lefel resymol sy'n datblygu o ddiddordeb cyhoeddus. Cafodd rhanddeiliaid eu cynnwys i raddau helaeth wrth bennu blaenoriaethau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae cynnydd cyfyngedig wrth ddatblygu cronfa ddata ymgynghori yn peri risg y caiff ymdrech ei dyblygu ar draws gwasanaethau. Nid yw'r gronfa ddata ymgynghori yn gysylltiedig â system gwyno a chanmol y Cyngor; felly mae gwybodaeth y Cyngor am ei gwsmeriaid yn dameidiog ac nid yw'n rhoi cymaint o wybodaeth ag y gallai i lywio'r broses o gynllunio gwasanaethau.

32 Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi'i ysgrifennu'n dda ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus, ac mae'r Cynllun Cyflenwi Corfforaethol yn nodi'n fanwl y camau gweithredu sy'n ategu'r Cynllun Corfforaethol. Rhydd y Cynllun Cyflenwi Corfforaethol hwn fframwaith i wasanaethau bennu eu hamcanion yn unol ag ef ac i'r Cyngor fonitro ei gynnydd yn ei erbyn wrth weithredu ei flaenoriaethau.

33 Nid yw'r Cynllun Corfforaethol na'r Cynllun Cyflenwi Corfforaethol sylfaenol yn ddigon eglur am y canlyniadau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cyflawni. Er bod y Cyngor yn gallu monitro p'un a gyflawnwyd tasgau a phrosiectau arfaethedig ai peidio, mae llai o eglurder ynghylch y canlyniadau y maent wedi dylanwadu arnynt neu wedi eu cyflawni. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r ffaith bod angen datblygu mwy o eglurder am ei ganlyniadau bwriadedig ac mae'n ystyried ffyrdd o wneud hynny, gyda chymorth Swyddfa Archwilio Cymru.

34 Nid ydym, hyd yma, wedi cwblhau ein gwerthusiad o'r ystod lawn o brif bolisïau a strategaethau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi llwyddo i drosglwyddo ei stoc tai i Cartrefi Conwy er mwyn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae'r Cyngor yn un o leiafrif sylweddol o awdurdodau yng Nghymru nad oes ganddo Gynllun Datblygu Unedol na Chynllun Datblygu Lleol i ategu ei benderfyniadau mewn ymateb i geisiadau cynllunio, er bod y Cynllun Datblygu Lleol drafft wedi'i gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad a disgwylir i fersiwn drafft diwygiedig gael ei gyflwyno i aelodau ym mis Awst 2010.

35 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi pennu ei gyllideb refeniw yn is na lefel ei Asesiad o Wariant Safonol ac wedi ceisio cydbwyso cynnydd isel mewn arian canolog â'r gwaith o reoli costau a chynnydd o ran sail isel y Dreth Gyngor. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor wedi datblygu dulliau effeithiol o alinio cyllidebau blynyddol â chynlluniau a phrosiectau gwasanaeth. Mae lefel y cronfeydd cyffredinol wrth gefn yn gymharol isel ond mae'r systemau rheoli ariannol yn gadarn. Mae gan y Cyngor hanes da o ddefnyddio grantiau'r UE i ariannu prosiectau adfywio.

36 Mewn ymateb i'r tebygolrwydd mawr y bydd refeniw yn gostwng yn sylweddol drwy'r Grant Cymorth Refeniw, mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig. Mae'r broses hon wedi nodi'r arbedion tebygol sydd eu hangen ar draws y Cyngor mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, ac mae gwaith sylweddol yn parhau gyda chyfranogiad swyddogion a chynghorwyr i ystyried yr effaith fanylach ar wasanaethau unigol, a sut y gellir gwneud penderfyniadau anodd ynghylch blaenoriaethau croes ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'n hanfodol bod y gwaith hwn yn parhau a bod y camau gweithredu dymunol yn cael eu cymryd. Hyd yma, dim ond effaith fach y mae cynllunio ariannol tymor canolig wedi'i chael ar flaenoriaethau'r Cyngor, gan adlewyrchu, yn rhannol, y ffaith bod y blaenoriaethau hyn wedi'u diffinio'n annigonol.

37 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran ansawdd ei waith cynllunio rheoli asedau. Fodd bynnag, mae i'r rhaglen barhaus moderneiddio ysgolion barhaus elfen o ansicrwydd o ran gofynion cyfalaf y Cyngor yn y dyfodol a'r modd y cânt eu bodloni. Mae'r Cyngor hefyd yn wynebu heriau o ran ei swyddfeydd, sydd ar wasgar ar hyn o bryd, mewn adeiladau sy'n amrywio o ran eu haddasrwydd ledled y fwrdeistref sirol.

38 Mae'r ffaith bod angen datrys problemau penodol o ran swyddfeydd yn gatalydd posibl ar gyfer proses eang o drawsnewid gwasanaethau'r Cyngor. Gwnaed gwaith cynnar i bennu buddiannau tebygol rhaglen o'r fath. Fodd bynnag, ar adeg o ansicrwydd ariannol, mae'r Cyngor wedi penderfynu adolygu'r gwaith cynllunio cychwynnol, a hynny'n ddoeth, er mwyn penderfynu a yw'r arbedion refeniw amcangyfrifedig yn realistig ac a yw'r costau cyfalaf yn fforddiadwy yn wyneb ymrwymiadau a blaenoriaethau sy'n bodoli eisoes.

39 Mae gan y Cyngor allu ac adnoddau digonol o ran Adnoddau Dynol ac mae polisïau Adnoddau Dynol allweddol ar waith. Mae'r prosiect 'Moderneiddio Cyflogaeth', sy'n cwmpasu gwerthuso swyddi a statws sengl, yn gwneud cynnydd graddol. Cyfeiriwyd yn gynharach at ethos 'Tîm Conwy', a ddatblygodd o ganlyniad i'r CAIP. Mae cylchlythyr misol i staff yn sicrhau eu



bod yn ymwybodol o ddatblygiadau pwysig, a gall staff gynnig awgrymiadau o ran sut y gallai'r Cyngor wella ei wasanaethau.

40 Mae'r Cyngor yn cydnabod mai megis dechrau y mae'r gwaith o gynllunio'r gweithlu ac nad yw'n cefnogi'n glir y broses o gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Fodd bynnag, ar lefel gwasanaeth, mae dealltwriaeth dda o allu ac adnoddau, ac mae'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn cynnig gweithio mewn partneriaeth â busnesau, i ryw raddau, i helpu i ddatblygu'r ddealltwriaeth hon. At hynny, mae cynllunio'r gweithlu ar draws y sector cyhoeddus yn yr ardal yn un o dair blaenoriaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ac mae Cytundeb Cyflenwi Lleol ar waith. Coleg Llandrillo, y coleg addysg bellach lleol mawr, sy'n arwain y gwaith hwn, gan ei gysylltu'n dda â'r Rhwydwaith Dysgu 14-19 a'r broses o gynllunio cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc yr ardal.

41 Ceir sawl enghraifft o gydweithio arloesol rhwng y Cyngor a phartneriaid eraill. Er enghraifft, ers mis Ionawr 2009, mae'r Cyngor wedi rhannu Pennaeth Priffyrdd a Seilwaith â Chyngor Sir Ddinbych. Cafwyd trafodaethau hefyd â Sir Ddinbych am gael cyd-bennaeth gwasanaethau plant ac mae'r Cyngor wrthi'n ystyried goblygiadau'r cydweithredu hwn. Mae cydweithio â'r gwasanaeth iechyd a chymdeithasau tai wedi arwain at ddau gyfleuster tai gofal ychwanegol yn ddiweddar.

42 Mae'r Cyngor yn mabwysiadu dull pragmatig o weithio mewn partneriaeth ag eraill. Wrth ystyried trefniadau partneriaeth newydd, mae'r Cyngor yn ystyried y costau a'r buddiannau sy'n deillio o gydweithio ag eraill o gymharu â chostau a buddiannau peidio â gwneud hynny. Mae dull gweithredu o'r fath yn ddarbodus, yn arbennig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ei ddull o weithredu yn ddigon strategol ac ystwyth i ymateb i gyfleoedd cydweithio wrth iddynt godi.

43 Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau ac mae'r pwyllgor hwn neu bwyllgor perthnasol arall yn cael adroddiadau rheolaidd ar waith partneriaethau y mae'r Cyngor yn gysylltiedig â hwy. Fodd bynnag, mae pwyllgorau'n tueddu i dalu gormod o sylw i fanylion yn hytrach na chanlyniadau a gwaith llywodraethu partneriaethau. Mae gwaith diweddar gan dîm Archwilio Mewnol y Cyngor wedi nodi gwendidau o ran llywodraethu sampl fach o bartneriaethau, a diffyg cydymffurfiaeth â gweithdrefnau rheoli risg a pherfformiad y Cyngor. Penodwyd Rheolwr Cydgysylltu Partneriaethau ac mae'n cynnal adolygiad o bartneriaethau i sicrhau bod eu gwaith cynllunio yn canolbwyntio'n agosach ar ganlyniadau na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd.